

Project Description

Sêr Cymru II is a £56 million programme, led by the Welsh Government, that sees the EU's Horizon 2020 funding working in synergy with EU Structural Funds, to deliver a seamless programme that includes:

Marie Skłodowska-Curie Actions COFUND fellowships: more than 90 research fellows from outside the UK

Research Chairs and Rising Star fellowships: five-year awards to attract the best in academic research

'Welsh' Fellowships: 30 three-year fellowships from anywhere in the world (including the UK)

Recapturing Research Talent: 12 fellowships to encourage researchers to return to academia.

Delivery Model

Sêr Cymru II is a competitive research award scheme, open to universities in Wales. Applications must come with match funding provided by the fellow's host institution but are driven by the fellows themselves. Funding recommendations are made using tested, merit-based methods and decisions are made independent of nationality, discipline, age, career breaks etc. The independent evaluation panel that make these recommendations for us was appointed through open competition and is made up of national and international experts with a broad scientific knowledge base and experience of funding panels. Their assessments are assisted via the use of external, international, and peer reviews.

Geographical Coverage

The project will benefit Cardiff and Newport in the South East of Wales as well as Anglesey,

Gwynedd, Ceredigion, Swansea and Wrexham.

Specific Targets

- New researchers in post: 74
- Increased grant income into Wales: £25.5m
- Collaborations with enterprises: 52

Essential Eligibility Criteria

Marie Skłodowska-Curie Actions COFUND fellowships: 3 - 5 post PhD, not spent more than 12 months in last three years in the UK

Research Chairs and Rising Star fellowships: 7 years + post PhD, significant experience and standing in field of research. Chairs only in exception cases only, where there is clear strategic need

'Welsh' Fellowships: 3 – 5 years post PhD, from anywhere in the world, including the UK and Welsh institutions as long as they show 'additionality' and capacity building

Recapturing Research Talent: 3 years post PhD experience and approx 2 years spent out of academic research


Contact Details

Delyth Morgan
Office of the Chief Scientific Adviser for Wales
Welsh Government
Cathays Park
Cardiff
CF24 3AA

✉ delyth.morgan@gov.wales

☎ 03000 251383

🔗 <https://businesswales.gov.wales/expertisewales/support-and-funding-researchers/s%C3%AAr-cymru-ii>



Disgrifiad

Mae Sêr Cymru II yn rhaglen gwerth £56 miliwn, dan arweiniad Llywodraeth Cymru, yr Undeb Ewropeaidd (UE) a sector Addysg Uwch Cymru. Mae'n ddatblygiad unigryw sy'n golygu bod cyllid Horizon 2020 yr UE yn gweithio ar y cyd â Chronfeydd Strwythurol yr UE i ddarparu rhaglen ddi-dor sy'n cynnwys:

Cymrodoriaethau Marie Skłodowska-Curie

Actions COFUND: dros 90 o gymrodorion ymchwil o'r tu allan i'r DU

Cymrodoriaethau Cadeiryddion Ymchwil a Sêr y Dyfodol:

dyfarniadau pum mlynedd i ddenu'r goreuon ym maes ymchwil academiaidd

Cymrodoriaethau 'Cymru': 30 cymrodoriaeth tair blynedd o unrhyw le yn y byd (gan gynnwys y DU)

Ail-gipio Dawn Ymchwilio: 12 cymrodoriaeth i annog ymchwilwyr i ddychwelyd i'r byd academiaidd

Model Cyflawni

Mae Sêr Cymru II yn gynllun gwobrwyo cystadleuol sydd ar gael i brifysgolion yng Nghymru. Mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau gyda'r cyllid cyfatebol gan sefydliad cynhaliol y cymrodor, ond y cymrodorion eu hunain sy'n llywio'r ceisiadau. Cynigir yr argymhellion ariannu drwy ddefnyddio dulliau sydd wedi'u profi ac sy'n seiliedig ar deilyngdod a gwneir penderfyniadau heb roi ystyriaeth i genedligrwydd, pwnc, oedran, seibiannau gyrfa, ac ati. Penodwyd y Panel Gwerthuso Annibynnol sy'n gwneud yr argymhellion hyn ar ein rhan drwy gystadleuaeth agored ac mae'n cynnwys arbenigwyr cenedlaethol a rhyngwladol a chanddynt wybodaeth wyddonol eang a phrofiad o banelli cyllido. Cynorthwyr eu hasesiadau drwy ddefnyddio adolygiad gan gymheiriaid allanol, rhyngwladol.

Ardal Ddaearyddol

Bydd y prosiect o fudd i Gaerdydd a Chasnewydd yn ne-ddwyrain Cymru, yn ogystal ag Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion, Abertawe a Wrecsam.

Targedau Penodol

- Ymchwilwyr newydd mewn swydd: 74 (DC 36, GCC 38)
- Cynnydd mewn incwm grantiau i Gymru: £25.5 miliwn (DC £12.5 miliwn, GCC £13 miliwn)
- Cydweithredu â mentrau: 52 (DC 25, GCC 27)

Meini Prawf Cymhwyster Hanfodol

Cymrodoriaethau Marie Skłodowska-Curie

Actions COFUND: 3 - 5 mlynedd ar ôl Doethuriaeth, heb dreulio mwy na 12 mis yn y DU yn ystod y tair blynedd diwethaf

Cymrodoriaethau Cadeiryddion Ymchwil a Sêr y Dyfodol:

7 mlynedd + ar ôl Doethuriaeth, profiad a pharch ym maes ymchwil. Cadeiryddion yn unig mewn achosion eithriadol yn unig, pan fo angen strategol amlwg

Cymrodoriaethau 'Cymru':

3 - 5 mlynedd ar ôl Doethuriaeth, o unrhyw le yn y byd, gan gynnwys y DU a sefydliadau Cymru cyhyd â'u bod yn dangos 'ychwanegedd' a'r gallu i feithrin capasiti

Ail-gipio Dawn Ymchwilio: 3 blynedd ar ôl Doethuriaeth profiad ac oddeutu 2 flynedd y tu allan i faes ymchwil academiaidd

Contact Details

Delyth Morgan
Swyddfa Prif Ymgynghorydd Gwyddonol Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF24 3AA

✉ delyth.morgan@gov.wales

☎ 03000 251383

🌐 <https://businesswales.gov.wales/expertisewales/support-and-funding->